

Hunanasesiad Blynyddol Blaenau Gwent 2024/25

Mae Cyngor Blaenau Gwent yn ceisio gweithredu fel sefydliad sy'n hunan-wella, lle mae cydnabyddiaeth o'r hyn sydd wedi mynd yn dda, ond, ac yn bwysicaf oll, mae'n cydnabod lle mae gwelliannau i'w gwneud.

Mae hunanasesiad gonest ac agored yn hanfodol i wireddu ein huchelgais.

Mae'r Cyngor yn gweithio i ymateb i'r cwestiynau canlynol yn yr holl waith y mae'n ei wneud:

- **A yw'r Cyngor yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol?**
- **A yw'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol?**
- **A yw trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn effeithiol ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus?**

Mae ein Hunanasesiad yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed drwy gydol 2023/24 ac fe'i hysgrifennwyd i ystyried:

- **Pa mor dda ydyn ni'n gwneud? Naratif o'r gweithgaredd sydd wedi digwydd**
- **Sut rydyn ni'n gwybod? Tystiolaeth ansoddol a meintiol a ddarparwyd; a**
- **Beth a sut allwn ni ei wneud yn well? Camau gweithredu i'w rhoi ar waith dros y blynyddoedd nesaf**

Mae ein hadroddiad hunanasesu yn gasgliad o'r holl waith hunanasesu a wnaed dros y flwyddyn flaenorol. Mae ein hadroddiad wedi bod trwy broses drylwyr i sicrhau ei fod wedi'i lywio gan ystod eang o dystiolaeth a bod y casgliadau sy'n cael eu tynnu yn rhai cywir.

Ffocws yr Hunanasesiad Blynyddol yw blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol Cyngor Blaenau Gwent, a elwir yn Amcanion Llesiant, a darparu asesiad o ba mor dda y mae'r Cyngor yn teimlo ei fod wedi cyflawni yn erbyn y rhain yn ystod 2024/25 a'r heriau i'w symud ymlaen. Rydym hefyd wedi darparu adolygiad o'n blwyddyn gyntaf o weithio tuag at ddod yn Gyngor rhagorol.

Y Cynllun Corfforaethol – Cynllun Cyflawni Blynyddol 2024/25 Adrodd yn erbyn ein Hamcanion Llesiant

Mae Cynllun Corfforaethol 2022/27 yn ymrwymo'r Cyngor i 4 uchelgais lefel uchel yr ydym yn gweithio i'w cyflawni dros oes y Cynllun. Caiff yr uchelgeisiau hyn eu hadolygu'n rheolaidd ac wrth i gynlluniau a phrosiectau gael eu datblygu, maent yn rhan o gynllun cyflawni blynyddol bob blwyddyn - gan symud ein huchelgais ar waith. Mae'r dull hwn yn arbennig o bwysig fel y gall y cynllun fod yn ailadroddus ac yn ystwyth ac fel y gellir ymateb i fentrau, heriau a chyfleoedd newydd, drwy gydol oes y cynllun.

Mae ein Cynllun Cyflawni Blynyddol yn tynnu sylw at y gweithgareddau allweddol a gynlluniwyd gennym ar gyfer 2024/25, wrth gyflawni ein huchelgeisiau, fel y'u nodir yn ein Cynllun Corfforaethol, ac wedi'u halinio â'r meysydd i'w gwella o Hunanasesiad y llynedd. Nodir trosolwg o gynnydd yn erbyn pob amcan isod:



Blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol 2024/25				
	Glas (gweithredu wedi'i gwblhau)	Gwyrdd (gweithredu (ar darged)	Ambr (gweithredu oddi ar y targed gyda llwybr yn ôl i wyrdd)	Coch (gweithredu oddi ar y targed pryderon sylweddol)
Cynyddu dysgu a sgiliau i bawb er mwyn creu Blaenau Gwent lewyrchus, ffyniannus a gwydn	2	18	3	2
Ymateb i'r argyfwng natur a hinsawdd a galluogi cymunedau cysylltiedig	0	3	5	0
Grymuso a chefnogi cymunedau i fod yn ddiogel, annibynnol a gwydn	1	7	5	0
Cyngor uchelgeisiol ac arloesol sy'n darparu gwasanaethau o safon ar yr amser iawn ac yn y lle iawn	2	8	3	1
Cyfanswm	5	36	16	3

O dan bob Amcan Llesiant mae cynllun cyflawni blynyddol a gefnogir gan gynlluniau busnes gweithredol. Ar y cyfan, ar gyfer 2024/25, mae'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu, sy'n cyfrannu at yr Amcanion Llesiant, wedi'u cyflawni, fodd bynnag, rydym yn cydnabod yn llawn bod gennym nifer o heriau i'w datrys o hyd a bod gwaith pellach i'w wneud i gyflawni pob un o'n hamcanion hirdymor yn llawn. Dyma'r dadansoddiad:

- Wedi'i Gwblhau (Glas) – 8%
- Ar Darged (Gwyrdd) – 60%
- Y Tu Ôl i'r Targed ond gyda chynllun i fynd yn ôl ar y trywydd iawn (Ambr) – 27%
- Y Tu Ôl i'r Targed gyda phryderon sylweddol (Coch) – 5%

Derbyniodd y Cyngor adroddiad llawn yn nodi'n fanylach y cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'n Hamcanion Llesiant ym mis Gorffennaf 2025 ac mae ar gael [yma](#). Mae'r adran ganlynol o'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at ein cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf, yn erbyn detholiad o weithgareddau allweddol, o dan bob un o'n 4 Amcan Llesiant Cynllun Corfforaethol.

